

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Ebrill 7fed, 2016 yn brydlon am 7-00 y.h. yn **Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.**

Ymweliad PCSO Mark Hughes, Heddlu Gogledd Cymru.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fawrth 3ydd, 2016.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Biniau Halen.
 2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned.
 3. Technegydd Cludiant Gweithredol; Iloches bws Rhoslan.
 4. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; dau e bost oddi wrth y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu.
 5. Cais Rhyddid Gwybodaeth (cyf T15754) ynghylch y Cynllun Adnau, Cynllun CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn.
 6. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, tair gohebiaeth.
 7. Gohebiaeth oddi wrth Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir, Gwasanaeth Amgylcheddol.
6. Cyngor Gwynedd –
 1. Cais rhif C16/0206/41/LL- Cais i godi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo, rhan ohono i ffurfio anecs cysylltiol; Tan Lon, Criccieth.
 2. Cais rhif C16/0138/41/LL – Cais ar gyfer gosod 13 llety gwyliau yn lle 10 caban a charafanau gwyliau, llety rheolwr sy'n cynnwys derbynfa a swyddfa i gymeryd lle llety rheolwr presennol, gosod 5 pod gwerysyla, codi adeilad mwynderol a storfa cyfarpar, ac ail-wampio'r safle bresennol a thirweddu; Bron Eifion Fishing Lakes and Lodges, Criccieth.
7. Angen cyfethol Cynghorydd dros Ward Rhoslan.
8. Cyngor Iechyd Cymuned; gofyn barn am y Gwasanaeth Nyrsio Ardal yng Ngogledd Cymru.
9. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon
Llanystumdwy
Chwilog/Rhoslan
Llangybi;
Peryglon troi am Lanarmon/Llangybi wrth adael pentref Chwilog.
10. Gair gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones ynghylch iaith peiriannau talu am barcio.
11. Cyflwr y Lôn Goed.
12. Angen paentio'r giat at fedd D Lloyd George.
13. Gwlybaniaeth ar draws y llwybr ger ceg lôn Gwesty Bron Eifion.

Materion Ariannol.

14. Adroddiad ariannol ar lafar.

15. Penodi Archwiliwr Mewnol a'r trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16.

16. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwilwr; Tâl am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2014-15 ynghyd â pharatoadau mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Flynyddol i'r Archwiliwr Allanol; £65-, Taliad Siec.

b. Aelodaeth Un Llais Cymru 2016/17; £263-, Taliad BACS.

c. Un Llais Cymru; un lle ar gwrs yng Nghaernarfon, £35 - £17.50c, bwrsari = £17.50c, Taliad Bacs.

Ch.Delwedd; Costau Lletya a Chynhaliaeth Blynyddol safle we'r Cyngor; £359.40c + TAW = £431.28, Taliad Bacs.

17. Llochesi bws yn y gymuned (9); Cytundeb 3 blynedd i'w glanhau 4 gwaith y flwyddyn. Tri pris i'w drafod.

18. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2016 ymlaen.

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.

dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

19. Y cais Rhyddid Gwybodaeth.

20. Dyddiad cyfarfod mis Mai y Cyngor.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.